**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 20 Tachwedd 2018**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau. |
| **2** | DATGANIADAU O FUDDIANT | Y Cynghorydd Meirick Davies – Cysylltiad Personol – Eitem rhif 5 ar y Rhaglen<br>Y Cynghorydd Brian Jones – Cysylltiad Personol – Eitem Rhif 8 ar y Rhaglen<br>Y Cynghorydd Tony Thomas – Cysylltiad Personol – Eitem Rhif 8 ar y Rhaglen<br>Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill – Cysylltiad Personol - Eitem 5 ar y Rhaglen. |
| **3** | MATERION BRYS | Ni chodwyd unrhyw faterion brys. |
| **4** | COFNODION | ***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 15 Hydref ac 30 Hydref 2018 fel cofnod cywir.* |
| **5** | ADRODDIAD PERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL CHWARTER 2 – 2018/19 | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi'r cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Corfforaethol ar ddiwedd chwarter 2 o 2018/19.* |
| **6** | ADRODDIAD CYLLID | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2018/19 a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni.* |
| **7** | BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET | ***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.* |
| **8** | DYFARNU GRANT ER MWYN CAFFAEL EIDDO AR RODFA'R GORLLEWIN A SUSSEX STREET YN Y RHYL | ***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet –*<br><br>*(a) yn cymeradwyo derbyn cyllid grant a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru i brynu eiddo ar Rodfa'r Gorllewin a Sussex Street yn y Rhyl sef safle hen westy'r Savoy a Marchnad, Theatr a Gwesty'r Frenhines cyn belled a bo'r caffaeliad arfaethedig, gan gynnwys unrhyw gostau refeniw rhagarweiniol, yn cael eu hariannu'n allanol, a*<br><br>*(b) chadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.* |

**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 20 Tachwedd 2018**

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|